# Arwain a rheoli ceffylau ar gyfer eu harchwilio, o dan oruchwyliaeth

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud ag arwain a rheoli ceffylau ar gyfer eu harchwilio, o dan oruchwyliaeth. Mae'r safon hon yn cynnwys cerdded a throtian ceffylau "mewn llaw" ar gyfer archwiliad iechyd a chadernid fel mater o drefn.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn unol â chyfarwyddyd goruchwylydd. Gallai hyn fod yn oruchwyliaeth uniongyrchol neu gallai fod trwy roi cyfarwyddiadau a monitro gwaith.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. mynd at y ceffyl i gael ei arwain yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi ac i eraill
3. cadw rheolaeth o'r ceffyl gan ddefnyddio offer a thechnegau addas, o dan oruchwyliaeth
4. arwain a rheoli'r ceffyl ar gyfer archwiliad iechyd a chadernid, o dan oruchwyliaeth
5. bod yn ymwybodol o'ch iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddefnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen arnynt a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. pam y mae angen rheoli ceffylau
4. y dulliau o arwain a rheoli'r ceffyl a'r rhagofalon i'w cymryd
5. y defnydd cywir o harneisiau yn cynnwys coler pen, ffrwyn, chifney a phenwar blaen
6. y mathau o archwiliad a gweithdrefnau gofal iechyd ar gyfer ceffylau
7. eich cyfrifoldebau dros iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid

LANEq107

Arwain a rheoli ceffylau ar gyfer eu harchwilio, o dan oruchwyliaeth

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq107 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; cerdded; arwain |